
PECYN GWYBODAETH

# Pennaeth Cynorthwyol Arweinydd Cynradd




'Ysgol Pob Oed ble mae pob plentyn yn cyfri'

www.bropedr.ceredigion.sch.uk



# hysbyseb

Yn sgil cyfle secondiad o ddwy flynedd i'r Pennaeth Cynorthwyol presennol, gwahoddir ceisiadau oddi wrth addysgwr ac arweinydd profiadol ar gyfer swydd Pennaeth Cynorthwyol yn ein hysgol.

I ddechrau cyn gynted â phosib, mae Corff Llywodraethol Ysgol Bro Pedr am benodi Pennaeth Cynorthwyol eiddgar sydd â'r weledigaeth a'r gallu i arwain, ysbrydoli ac ysgogi cymuned gyfan. Mae Ysgol Bro Pedr yn falch o gynnig y cyfle cyffrous hwn i Arweinydd Cynradd. Rydym yn chwilio am arweinydd rhagorol gyda hanes profedig o lwyddiant. Bydd gan y sawl a benodir yr angerdd, egni a'r brwdfrydedd i gefnogi'r Pennaeth a'r Tîm Arwain wrth yrru gwelliant pellach yn yr ysgol. Pwrpas craidd y rôl fydd darparu arweiniad a chyfeiriad strategol o ran ein disgyblion oed cynradd.

Mae Ysgol Bro Pedr yn ysgol flaengar a chyffrous. Gwahoddir ceisiadau gan addysgwyr profiadol, sy'n frwdfrydig ac ysbrydoledig, i adeiladu ar y dreftadaeth gref hon. Rydym yn falch iawn ein bod yn:

- ysgol hapus a gwâr yng nghalon ein cymuned
- dathlu cynnydd a llwyddiannau pawb yn ddi-wahân
- gofalu am ein gilydd ac am eraill
- anelu am y gorau bob tro
- cynnig addysg a phrofiadau o'r radd flaenaf

Dewch i ymuno â thîm cefnogol, brwdfrydig a blaengar yn yr ysgol 3-19 hon. Bydd y sawl a benodir yn cynorthwyo yn y broses o arwain a rheoli'r ysgol ac yn meddu ar nodweddion arweinyddiaeth a rheolaeth ragorol a fydd yn:

- hyrwyddo safonau cyflawniad uchel i bawb
- dylanwadu ar gydweithwyr trwy osod esiampl fel model rôl ysbrydoledig sydd yn drefnus a chydwybodol
- cysylltu â staff, disgyblion a rhieni i annog ethos gwaith effeithiol





# hysbyseb

Annwyl Ymgeisydd,

Diolch mawr am ddangos diddordeb mewn rôl Pennaeth Cynorthwyol yn Ysgol Bro Pedr.

Ysgol dwyieithog yw Ysgol Bro Pedr a rydym yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod yn un o ysgolion cyntaf 3-19 Cymru, ac yn torri tir newydd o ran darparu addysg gydol oed ar gyfer ein disgyblion. Er bod nifer o ddisgyblion yn cychwyn yn yr ysgol yn 3 oed, daw nifer yn ogystal o ysgolion cynradd partner eraill o'r Awdurdod Lleol ac o Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin. Mae 960 o ddisgyblion ar rôl yr ysgol - 321 o ddisgyblion Meithrin i flwyddyn 6 a 639 o ddisgyblion Blwyddyn 7-13 (sy'n cynnwys 79 o ddisgyblion ym mlwyddyn 12 a 55 o ddisgyblion ym mlwyddyn 13).

Daw 69.4% o ddisgyblion yr ysgol o gartrefi lle na defnyddir y Gymraeg. Mae'r disgyblion yn cael eu ffrydio'n ieithyddol, gyda dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg a dosbarthiadau Cymraeg Ail-Iaith ym mlynyddoedd 3-13. Mae'r ysgol wedi mynd trwy ymgynghoriad llwyddiannus yn ddiweddar sy'n golygu bod ein disgyblion Dysgu Sylfaen i gyd yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig. Ar hyn o bryd, mae 24.5% o'n disgyblion yn hawlio prydiau ysgol am ddim (20.97% o'n disgyblion oed uwchradd a 31.7% o'n disgyblion oed cynradd). Ar hyn o bryd, mae 15 o ddisgyblion sydd mewn gofal yn mynychu ein hysgol ac mae 16 o ddisgyblion yr ysgol yn ofalwyr ifanc. Hefyd, mae 10.1% o'n disgyblion â Saesneg fel Iaith Ychwanegol, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r ganran yn is o fewn yr oed cynradd (9.03%) o'i gymharu â'r oed uwchradd (10.64%). Rydym yn falch iawn o'n cymuned cynhwysol yn Ysgol Bro Pedr a rydym yn darparu'n llwyddiannus ar gyfer ystod lawn o alluoedd a chefndiroedd.

Lleolir Canolfan Y Bont, sef adnodd sirol ar gyfer disgyblion o oed uwchradd ag anghenion amrywiol (ASD, SLD, PMLD, MSI), ar safle'r ysgol. Mae'r ganolfan yn rhan lawn o'r ysgol, ac mae'r disgyblion ar rôl Ysgol Bro Pedr. Yn ogystal, sefydlwyd uned Sgiliau Bywyd sy'n darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol lled ddwys a disgyblion ymddygiadol bregus a chynigai barhad a dilyniant i rai o ddisgyblion Canolfan y Bont lle'n berthnasol ac ymarferol. Mae yna 11 o ddisgyblion yn mynychu Canolfan Y Bont a 21 o ddisgyblion yn mynychu Sgiliau Bywyd, ar hyn o bryd.

Mae Tîm Arwain Ysgol Bro Pedr yn cynnwys: Pennaeth, Dirprwy Bennaeth, dau Bennaeth Cynorthwyol, Arweinydd Lles ac Arweinydd Cynnydd.






# Proses ymgeisio

| | |
|---|---|
| Dyddiad Cau | Dydd Mercher, 3ydd o Fedi 2025 |
| Cyfweliadau | Dydd Mercher, 10fed o Fedi 2025 |
| Dyddiad Dechrau | Cyn gynted â phosib |

Mae Diogelu ac Amddiffyn Plant yn flaenoriaethau allweddol i Gyngor Sir Ceredigion. Ein nod yw cefnogi plant a phobl ifanc bregus er mwyn sicrhau eu bod mor ddiogel â phosibl. Mae ein hysgolion wedi ymrwymo i ddiogelu ac amddiffyn pob plentyn, a byddant yn cymryd camau i ddiogelu'u lles a chydnabod eu hawl i gael eu hamddiffyn. Caiff hyn ei gefnogi gan ethos cyffredinol yr holl ysgolion. Bydd angen gwiriad Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y swydd hon.

Gofynnir i ymgeiswyr sicrhau eu bod ar gael ar y 10fed o Fedi ar gyfer y cyfweliadau.

Am fwy o wybodaeth neu i drefnu ymweliad, croeso i chi gysylltu â'r Pennaeth,






# Swydd Ddisgrifiad

## TEITL Y SWYDD - Pennaeth Cynorthwyol
## cyfnod - secondiad dwy flynedd
## Cyflog - L13-L17

### DISGWYLIADAU

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cwrdd â holl ddisgwyliadau'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth. Mae medrau cyfathrebu rhagorol, yn y Gymraeg a'r Saesneg, ar lafar ac yn ysgrifenedig yn hanfodol ar gyfer y swydd yma.

### DISGRIFIARD SWYDD TîM ARWAIN

Bydd pob aelod o'r Tîm Arwain, ynghyd â phob aelod arall o staff, yn rhannu nifer o gyfrifoldebau a dyletswyddau generig megis:

- cymryd rhan mewn prosesau monitro, datblygu, gyrru gwelliant a chynnal safonau
- sicrhau ymddygiad rhagorol gan ddisgyblion
- sicrhau safonau dysgu ac addysgu uchel
- arwain gwasanaethau a chymryd dyletswyddau goruchwyliol
- hyrwyddo'r ysgol yn gyhoeddus
- sicrhau diogelwch pawb sy'n rhan o'r ysgol

Er bod gan aelodau'r Tîm Arwain eu dyletswyddau unigol, disgwylir cyd-ddealltwriaeth ar draws y grŵp o'r dyletswyddau hynny a'r materion sydd yn eu parthau unigol. Byddant yn cyfrannu'n gorfforaethol tuag at ddatblygu, gweithredu a gwerthuso polisïau ac yn creu ethos lle mae addysgu a dysgu yn ffynnu ac yn galluogi'r ysgol i symud ymlaen at y lefel nesaf o ragoriaeth. Mae anelu am ragoriaeth o ran addysgu a dysgu a gwella ansawdd pob agwedd o waith yr ysgol yn flaenoriaeth barhaus i holl staff yr ysgol.

Hefyd, rhennir cyfrifoldebau arwain a rheolaeth addysgiadol sylweddol eraill gan y tîm arweinwyr canol megis: Penaethiaid Adran/Cyfadran, Arweinwyr Ardal, Penaethiaid Blwyddyn, Cydgysylltwyr Medrau a'r Swyddog Arholiadau.



# Swydd Ddisgrifiad

## MANYLION CYFFREDINOL

Rhaid i bob aelod o'r staff ysgol ymrwymo i ddisgwyliadau sylfaenol yr ysgol a'r proffesiwn, sef:

- dilyn canllawiau diogelu lleol a chenedlaethol
- aelodaeth o'r Cyngor Gweithlu Addysg
- dilyn Côd Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol CGA a'u canllawiau arfer da.

## LLWYTH DYSGU

Cytunir ar lwyth gwaith dysgu priodol ar gyfer arweinwyr yn flynyddol mewn trafodaeth â'r Pennaeth.

## YN ATEBOL I:

Y Pennaeth a'r Corff Llywodraethol

## ADRAN 1 – DYLETSWYDDAU GENERIG AR GYFER UWCH ARWEINYDD

1. Cyfrannu at weithgareddau'r ysgol gyfan a dyletswyddau'r Tîm Arwain gan gynnwys arwain gwasanaethau, cyflwyniadau i ddisgyblion a rhieni a goruchwyliaeth amser cinio.
2. Gweithredu strategaethau ar gyfer rhedeg yr ysgol yn effeithiol o fewn y polisïau a fabwysiadwyd gan y Corff Llywodraethol.
3. Cynorthwyo i gyflwyno'r weledigaeth yn eglur ar gyfer ysgol effeithiol.
4. Cychwyn a rheoli newidiadau a gwelliannau i ddatblygu'r ysgol a'r staff yn unol â chynllun datblygu'r ysgol.
5. Cydweithio fel aelod o dîm i weithredu'r rhaglen monitro a gwirio ansawdd.
6. Meithrin safonau uchel a dylanwadu ar ymarfer eraill.
7. Gweithredu systemau effeithiol ar gyfer arwain a chefnogi:
   - Penaethiaid Blwyddyn
   - Penaethiaid Adran/Cyfadran/Arweinwyr Ardal, gan gynnwys cyswllt ag adrannau/ardaloedd penodol
   - Adrodd i'r Pennaeth yn rheolaidd ar ddatblygiad, anghenion hyfforddiant a safonau
   - gyda'r staff, Penaethiaid Cyfadran/Adran/Arweinwyr Ardal a Phenaethiaid Blwyddyn: gweithredu'r Polisi Ymddygiad a chyfeirio materion mwy difrifol o gamymddwyn yn unol â'r Polisi Ymddygiad i'r Pennaeth



8. Gweithio'n agos â'r Uwch Dîm Arwain er mwyn:
    - ymateb i faterion Iechyd a Diogelwch
    - sicrhau agwedd broffesiynol y staff cyflenwi a safonau mewn dosbarthiadau yn absenoldeb staff
    - sicrhau gweinyddu effeithiol y diwrnod ysgol
9. Cyfrifoldebau ychwanegol - ar ôl trafodaeth gyda'r Pennaeth
10. Cynorthwyo â threfnu a rheoli digwyddiadau arbennig a drefnir yn yr ysgol
11. Cynrychioli'r Pennaeth mewn cyfarfodydd fel bo angen
12. Defnyddio Amser Arwain a Rheoli yn effeithiol ar gyfer y dibenion hyn
13. Cynorthwyo i reoli ac arwain y staff o ddydd i ddydd.
14. Defnyddio staff yn effeithiol er mwyn eu galluogi i gael cydbwysedd da o ran gwaith / bywyd.
15. Mynychu cyfarfodydd rheolaidd y Tîm Arwain ac adrodd ar feysydd cyfrifoldeb.
16. Cynorthwyo'r Pennaeth wrth gyflwyno adroddiadau mewn cyfarfodydd Llywodraethwyr yn achlysurol.

## IECHYD A DIOGELWCH

1. Cyfrannu at rota goruchwyliaeth y Tîm Arwain yn ystod amser egwyl, cinio a bysiau.
2. Bod yn ymwybodol o Iechyd, Diogelwch a Lles personol ac Iechyd, Diogelwch a Lles eraill a allai gael eu heffeithio gan eich gweithredoedd.
3. Cydweithredu â'r Pennaeth ar yr holl faterion sy'n ymwneud ag Iechyd, Diogelwch a Lles.
4. Cydweithio i drefnu ymarferion a gweithredu polisi argyfwng tân neu bolisïau argyfyngau eraill yr ysgol.

## DATBLYGIAD PROFFESIYNOL PARHAUS – PERSONOL

1. Mewn cydweithrediad â'r Pennaeth, ysgwyddo'r cyfrifoldeb am ddatblygiad proffesiynol personol pob aelod staff, gan gyfrannu gwybodaeth am y diweddaraf ynglŷn ag ymchwil, ymholi a'r datblygiadau mewn dysgu, addysgeg, lles a newidiadau yng nghwricwlwm ysgolion.
2. Ymgymryd ag unrhyw ddatblygiad proffesiynol angenrheidiol fel y'i nodir yng Nghynllun Gwella'r Ysgol, gan gymryd mantais lawn o unrhyw hyfforddiant a datblygiad perthnasol sydd ar gael.
3. Cadw portffolio proffesiynol o dystiolaeth i gefnogi'r broses Rheoli Perfformiad - gan gynnwys targedau sy'n ymwneud ag arweinyddiaeth, gwerthuso a gwella eich ymarfer eich hun.
4. Rheoli eich amser eich hun yn effeithiol wrth drafod ystod eang o ofynion y swydd o ddydd i ddydd ac yn y tymor hir.



## DATBLYGIAD PROFFESIYNOL PARHAOL – ERAILL

1. Cymryd rôl arweiniol yn adnabod anghenion hyfforddiant unigolion ac yn narpariaeth mewnol Datblygiad Proffesiynol o ansawdd uchel.
2. Arweinydd linell ar gyfer staff perthnasol gan gynnwys:

- defnyddio staff yn effeithiol er mwyn eu galluogi i gael cydbwysedd da gwaith/bywyd
- cyfrannu at raglen Rheoli Perfformiad, drwy ddefnyddio/darparu, lle y bo hynny'n addas, ffynonellau eraill o wybodaeth arbenigol, e.e. AALl, asiantaethau hyfforddi allanol, ayyb.

Nid yw hwn yn ddatganiad cynhwysfawr o weithdrefnau a thasgau, ond mae'n datgan prif ddisgwyliadau'r ysgol parthed cyfrifoldebau a dyletswyddau proffesiynol y Pennaeth Cynorthwyol.

Disgwylir i staff gydymffurfio ag unrhyw gais rhesymol gan y Pennaeth i wneud gwaith ar lefel debyg nad yw wedi'i nodi yn y disgrifiad swydd hwn.

## ADRAN 2 - DYLETSWYDDAU PENODOL

Bydd deilydd y swydd yn cymryd cyfrifoldeb dros y meysydd penodol isod, i'w cadarnhau yn dilyn penodiad:

- Hyrwyddo ethos gynhwysol Ysgol Bro Pedr.
- Arwain gweledigaeth glir ar gyfer ein adran cynradd yn unol â gweledigaeth ac ethos yr ysgol.
- Cefnogi'r Pennaeth a'r Dirprwy Bennaeth yn holl agweddau arwain a rheoli'r ysgol.
- Gweithio'n agos gyda'r arweinwyr eraill i sicrhau parhad a dilyniant di-dor ar draws y sector 3–19.
- Monitro ac arfarnu safonau addysgu, dysgu a chynnydd disgyblion, gan weithredu camau gwella lle bo angen.
- Arwain strategaeth yr ysgol ar ddatblygu ethos Cymreig cryf a'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm a bywyd yr ysgol.
- Hybu defnydd o'r Gymraeg ym mhob cyd-destun, gan gynnwys sesiynau cyfrwng Saesneg, drwy hyfforddiant staff, modelu ac ymgyrchoedd iaith.
- Defnyddio data ac asesiadau i fesur cynnydd a gosod targedau heriol i ddisgyblion a staff.
- Ysbrydoli, herio a chefnogi disgyblion i gyflawni eu potensial llawn.
- Sicrhau bod profiadau dysgu'n gynhwysol, yn greadigol ac yn ysbrydoledig.
- Cefnogi a chynnal diwylliant o ofal a pharch, gan weithio'n agos gyda'r tîm lles a'r rhieni/gofalwyr.
- Sicrhau bod anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn cael eu hadnabod a'u diwallu'n effeithiol.





# MANYLEB PERSONOL

## CYMWYSTERAU

### HANFODOL

- Statws athro cymwysedig
- Gradd neu achrediad cyfwerth

### DYMUNOL

- Gradd Uwch

## PROFIAD

### HANFODOL

- Gwybodaeth sylweddol a pharhaus, profiad, dealltwriaeth a chymhwysedd o’r cyd-destun addysgol bresennol ar genhadaeth genedlaethol
- Profiad o fonitro, gwerthuso ac adolygu perfformiad er mwyn codi cyflawniad pob dysgwr
- Gwybodaeth a dealltwriaeth gyfoes am addysgu a dysgu o ansawdd uchel a sut i sicrhau ansawdd a gwerthuso effaith
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o holl ofynion y cwricwlwm, fframweithiau atebolrwydd newydd a’r agenda genedlaethol mewn perthynas â’r cwricwlwm ac asesu ym mhob cyfnod allweddol
- Tystiolaeth o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus personol llwyddiannus
- Profiad o weithio gydag asiantaethau allanol

### DYMUNOL



# MANYLEB PERSONOL

## DATBLYGIAD PROFFESIYNOL PARHAUS

### HANFODOL

- Dealltwriaeth o ddeddfwriaeth, materion a datblygiadau addysgol cyfredol
- Tystiolaeth o weithredu DPP ac o arwain/darparu/cydlynu cyfleoedd datblygiad proffesiynol
- Gwybodaeth gadarn am y Cwricwlwm i Gymru

### DYMUNOL

- Gwaith llwyddiannus gyda Llywodraethwyr

## SGILIAU ARWAIN

### HANFODOL

Prawf o sgiliau arwain ardderchog, gan gynnwys:-

(i) Y ddawn i greu dyheadau sy'n hyrwyddo safonau cyrhaeddiad uchel i bawb
(ii) Annog a chefnogi disgyblion i ddod yn ddysgwyr medrus
(iii) Sgiliau ysgogol cryf i gynorthwyo gyda phrosesau newid
(iv) Ymrwymiad i hyrwyddo a diogelu lles disgyblion
(v) Ymwneud â chymuned rhieni'r ysgol

### DYMUNOL

- Profiad o gefnogi datblygiad staff drwy ddysgu ac addysgu arloesol





# MANYLEB PERSONOL

## DATBLYGU CYFEIRIAD A DATBLYGIAD STRATEGOL YR YSGOL

### HANFODOL

- Cyfraniad parhaus o lunio'r broses cynllunio strategol ar lefel ysgol gyfan, gan gynnwys cynllun datblygu'r ysgol
- Defnydd effeithiol o brosesu gwerthuso i lywio newidiadau a chyflwyno gwelliannau

### DYMUNOL

## SGILIAU ARWAIN A RHEOLI

### HANFODOL

- Y gallu i arddangos a phrofi fod gennych hanes o atebolrwydd mewn agweddau o reoli ysgol
- Y gallu i ddadansoddi data, datblygu cynlluniau strategol, gosod targedau a monitro / gwerthuso cynnydd parhaus
- Profiad o gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus cydweithwyr
- Ymgynghorol, gwrandäwr da, cefnogol i gydweithwyr a chyfranogol iawn

### DYMUNOL

- Y gallu i brofi fod gennych hanes o atebolrwydd mewn mwy nag un agwedd o reoli ysgol/maes cyllideb
- Y gallu i ddirprwyo gwaith a chefnogi cydweithwyr i ymgymryd â chyfrifoldebau
- Tystiolaeth o fod wedi gweithredu rheoli newid
- Profiad o weithio gydag a chefnogi Llywodraethwyr
- Profiad o ddelio â materion staffio mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd





# MANYLEB PERSONOL

## SGILIAU ALLWEDDOL, RHINWEDDAU A PHRIODOLEDDAU

### HANFODOL

- Ymrwymiad i gael y canlyniadau gorau i bob disgybl a hyrwyddo ethos a gwerthoedd yr ysgol
- Y gallu i hybu ymddygiad a disgyblaeth rhagorol drwy'r ysgol
- Y gallu i weithio o dan bwysau a blaenoriaethu'n effeithiol i fodloni terfynau amser
- Ymrwymiad i gynnal cyfrinachedd bob amser
- Ymrwymiad i ddiogelu a chydraddoldeb
- Y gallu i ddangos ymwybyddiaeth o anghenion cydweithwyr
- Gwerthfawrogiad a dealltwriaeth o anghenion Cymreig yr ysgol
- Y gallu i gyfathrebu yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg
- Ymrwymiad llwyr i'r disgyblion a'u dysgu, eu lles, a'u diogelwch
- Ymrwymiad cadarn i gynnal cysylltiadau â Llywodraethwyr, y gymuned leol, ysgolion lleol ayyb
- Mynegiant da a'r gallu i wneud cyflwyniadau gerbron cynulleidfa amrywiol

## DATBLYGU POLISÏAU A'R CWRICWLWM

### HANFODOL

- Dealltwriaeth o ddatblygiad arferion dysgu effeithiol, ac ymrwymiad cryf iddo, trwy gydol cwricwlwm yr ysgol
- Dealltwriaeth o bwysigrwydd datblygiad unigol pob disgybl er mwyn cyflawni ei lawn botensial
- Profiad o weithio gyda chyrff allanol i ddatblygu materion cwricwlwm a pholisi
- Tystiolaeth o weithredu'r datblygiadau cwricwlwm a pholisi diweddaraf





# MANYLEB PERSONOL

## AMRYWIAETH A CHYFLEOEDD CYFARTAL

### HANFODOL

- Ymrwymiad i gefnogi a datblygu'r cysylltiadau a sefydlwyd gan yr ysgol i hyrwyddo ethos o barch a dealltwriaeth ddiwylliannol
- Y gallu i arddangos ymrwymiad cadarn i osod gwerth ar gydraddoldeb ac amrywiaeth

## GWEITHIO GYDA PHOBL A'I DATBLYGU

### HANFODOL

- Ymrwymiad i hybu a datblygu sgiliau arweinyddol a dysgu ac addysgu staff
- Sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu rhagorol





# EIN PRIF FLAENORIAETHAU 2025-2026

PRESENOLDEB

Gwella presenoldeb

PARODRWYDD I DDYSGU

Gwreiddio diwylliant ymarfer perthynol i hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu.

DYSGU AC ADDYSGU

Sicrhau cysondeb yn ansawdd adborth ar waith a’r lefel her i gael effaith gadarnhaol ar safon gwaith disgyblion

Y GYMRAEG

Cynyddu’r defnydd o Gymraeg achlysurol yn y gwersi cyfrwng Saesneg er mwyn annog disgyblion i ddefnyddio’r Gymraeg yn fwy hyderus.